

Bwletin Rheoli Adnoddau Naturiol

Natural Resource Management Bulletin



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru
www.gov.wales

Rhifyn 22 – Mehefin 2015

Cyflwyno Bil yr Amgylchedd (Cymru)

Yn dilyn cyflwyno'r Bil, mae'r Cynulliad Cenedlaethol bellach wedi dechrau ar y broses o ystyried y Bil.

Hyd yn hyn, fel rhan o ystyriaeth Cam 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 1 Mehefin a'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 24 Mehefin.

Bydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn cynnal sesiynau tystiolaeth gyda rhanddeiliaid trwy gydol yr haf a bydd yn gwahodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Medi. Bydd y Gweinidog hefyd yn bresennol yn y Pwyllgor Cyllid i ddarparu manylion pellach mewn perthynas ag agweddau ariannol y Bil.

Mae gan y Pwyllgorau hyd at 9 Hydref i adrodd ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Yna bydd y Cynulliad yn cael cais i drafod a chytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn y Cyfarfod Llawn - cyfeirir at hyn yn aml fel "dadl Cam 1". Bydd hyn yn dod â thrafodion Cam 1 i ben.

Bydd gofyn hefyd i'r Cynulliad gytuno ar y penderfyniad ariannol, sy'n ymwneud â'r egwyddor o godi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru o ganlyniad i'r Bil.

Pe cytunir ar egwyddorion cyffredinol y Bil a'r penderfyniad ariannol, caiff y cam nesaf, sef Cam 2, ei weithredu yn yr hydref a bydd yn cynnwys ystyriaeth fanwl gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd o unrhyw welliannau i'r Bil.

Os hoffech ddilyn hynt y Bil trwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru, cliciwch ar y ddolen isod:

www.cynulliad.cymru

Peidiwch ag anghofio ein bod wedi cynhyrchu ffilm fer wedi'i hanimeiddio i egluro nodweddion allweddol y Bil. Gallwch weld a lawrlwytho cyfres o ffeithlenni yn esbonio'r newidiadau a ddaw yn sgil y Bil trwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cymru. Ochr yn

ochr â'r ffeithlenni, ceir cyfres o "gwestiynau cyffredin" sydd wedi'u diweddarau, ynghyd â chynnydd y Bil trwy'r Cynulliad.

Mae'r deunyddiau hyn ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol:

<http://llyw.cymru/environmentbill>

Gallwch hefyd gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ar Twitter trwy ddilyn #EnvBillWales.

Y Gronfa Natur – Ardaloedd Gweithredu Byd Natur

Canolbwyntio ar yr Ardaloedd Gweithredu Byd Natur – Cymoedd De Cymru

Mae'r rhifyn olaf o Ganolbwyntio ar yr Ardaloedd Gweithredu Byd Natur yng Nghymoedd De Cymru. Mae gan yr Ardal Weithredu Byd Natur hon dri phrosiect wedi'u lleoli'n unig yng nghymoedd de Cymru gyda rhanddeiliaid yn cydweithio ar raddfa fawr i ddatblygu ecosystemau cydnerth a darparu amrywiaeth o fuddion amryfal i gymunedau ar draws Cymoedd De Cymru yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn ucheldiroedd y cwm dwyreiniol, mae'r prosiect Tirweddau Angof yn uno tri awdurdod lleol (Torfaen, Blaenau Gwent a Chaerffili) i weithio gyda ffermwyr, Ymddiriedolaeth Natur Gwent a'r gwasanaethau brys i reoli'r ucheldiroedd yn gynaliadwy. Mae rhan fwyaf o'r ucheldiroedd yn cynnwys tiroedd comin trefol sy'n cael eu defnyddio fel arfer ar gyfer ffermio mynydd a gweithgareddau hamdden megis cerdded, marchogaeth a beicio mynydd. Mae'r ucheldiroedd hefyd mewn perygl o ddioddef troseddu amgylcheddol megis cynnwys tanau bwriadol, tipio anghyfreithlon a gyrru oddi ar y ffordd. Mae'r prosiect yn delio â'r materion hyn trwy adfer yr ucheldir i les ac amrywiaeth ecolegol, er enghraifft trwy bori cynaliadwy a rheoli rhedyn, gan hefyd amddiffyn yr ardal rhag troseddu amgylcheddol trwy gynlluniau allgymorth cymunedol a datblygu cyfarwyddyd arfer gorau. Bydd y camau gweithredu hyn yn helpu i ddarparu buddion amryfal i gymunedau megis darparu tir ffermio mwy cynhyrchiol, mynediad gwell a mwy diogel i gymunedau, cynefinoedd mwy cydnerth i fywyd gwylt ffynnu yn ogystal ag ysgogi gweithgarwch dal carbon a storio dŵr yn yr ucheldiroedd.

Mae'r prosiect hefyd yn datblygu cynllun rheoli adnoddau naturiol i nodi'r dystiolaeth a'r broses benderfynu ar gyfer rheoli adnoddau'r ardal yn gynaliadwy. Mae'r prosiect yn cynnwys ucheldiroedd gogledd Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen sef 200 cilomedr².

Yn y cyfamser, mae'r prosiect Peillwyr am Oes yn ymgysylltu â chymunedau ar draws ardaloedd cynghorau Torfaen, Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Chaerffili i wella mannau gwyrdd y sector cyhoeddus a'u cysylltedd ar gyfer rhywogaethau peillio a bywyd gwylt, gan hefyd wella'r mannau gwyrdd hyn i bobl eu mwynhau. Mae hyn yn cynnwys plannu perllannau a gwrychoedd a thrawsnewid ochr ffyrdd i fyrrdd o flodau gwylt. Mae pwyslais cryf ar hyfforddi ac addysg gan weithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol i wella cynefinoedd ar draws y pedair sir. Mae'r prosiect hefyd yn datblygu Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd hirdymor ar gyfer y tir sy'n eiddo i'r sector cyhoeddus a

rhanddeiliaid allweddol eraill a fydd yn darparu'r rhaglen waith adnoddau naturiol tymor canolig i'r hirdymor ar gyfer yr ardaloedd hyn.

Yng Nghwm Llynfi, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Iechyd Leol, yr awdurdod lleol, ysgolion a chymunedau i roi prosiect creu coetir ar waith a fydd yn trawsnewid hen safle olchfa i 30 hectar o goetir gan greu man gwyrdd hygyrch i'r gymuned ei ddefnyddio.

Mae prosiectau eraill ar waith yn yr ardal, ond nid ydynt yn gyfyngedig i Gymoedd De Cymru yn unig. Er enghraifft, mae'r prosiect Pond Connections dan arweiniad yr Amphibian and Reptile Conservation Trust wedi ymgymryd â gwaith mewn dros 30 o safleoedd ar draws de Cymru (gan gynnwys Ardaloedd Gweithredu Byd Natur Bannau Brycheiniog a Sir Benfro). Mae'r prosiect wedi creu ac adfer pyllau er mwyn darparu cynefinoedd mwy cydnerth sy'n gweithredu'n well yn ogystal â lleihau dŵr ffo gan fod o fudd i amddiffynfeydd rhag llifogydd a rheoli maeth. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio busnesau a chontractwyr lleol i helpu'r economi leol a'r gobaith yw y bydd uwch-sgilio gwirfoddolwyr a buddiolwyr cymunedol sy'n rhan o'r prosiect yn arwain at ragor o gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.



Llun – Aelodau o dîm Cronfa Natur LIC yn ymweld â fferm Mr Davies i'r de o'r Epynt, sef rhan o brosiect Coed Cymru y Gronfa Natur. Gwnaeth Gareth (CC) a Mr Davies (perchennog y fferm) ddangos iddynt sut y mae'r gronfa wedi helpu i greu datrysiadau ynghylch gwrychoedd a draenio sy'n gwella'r gwaith o reoli defaid ar y fferm a bydd yn gwella ansawdd y glaswellt yn y caeau a dargedwyd. Lleolwyd a dewiswyd y gwrychoedd i fanteisio i'r eithaf ar y potensial o ran cysylltedd, a nod plannu'r gymysgedd o rywogaethau o goed yw hyrwyddo'r potensial o ran bioamrywiaeth yn yr ardaloedd ucheldir hyn.

Roedd Emily Finney a Nicola Thomas yn falch o gael eu gwahodd i weld y gwaith yn uniongyrchol ac i ddeall sut, ar ddiwrnod mor wyntog, y mae'r cysgod sy'n cael ei

ddarparu gan y gwrychoedd hyn mor bwysig i anifeiliaid fferm ac i'r anifeiliaid a'r planhigion yn y gwrychoedd.

Diweddariadau'r Gronfa Natur yn y Dyfodol

Mae'r cyfnod o ddarparu prosiectau'r Gronfa Natur bellach yn dod i ben. Fodd bynnag bydd y dysgu a ddarparwyd gan y prosiectau'n helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a'r Datganiadau Ardal a gyflwynwyd gan Fil yr Amgylchedd.

Mae'r taflenni ffeithiau ar gyfer y prosiectau'n darparu trosolwg o sut y mae modd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ymarferol. Mae modd cael mynediad i'r rhain yma:

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/nature-fund/nature-fund-projects/?skip=1&lang=cy>

Meysydd eraill o ddiddordeb

Strategaeth Ddŵr i Gymru

Ar 20 Mai, lansiwyd Strategaeth Ddŵr i Gymru Llywodraeth Cymru gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu ein cyfeiriad polisi hirdymor mewn perthynas â ddŵr. Ein bwriad yw sicrhau bod gennym ymdriniaeth fwy integredig a chynaliadwy i reoli ein ddŵr a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru. Mae'r Strategaeth hon wedi cael ei datblygu yn y cyd-destun hwn, a bydd yn cyfrannu at weithrediad ein polisi rheoli adnoddau naturiol ehangach.

Bydd ymdriniaeth fwy integredig tuag at y ffordd yr ydym yn rheoli ein hadnoddau ddŵr yn ein helpu i hyrwyddo rheolaeth gydlynol ddŵr, tir ac adnoddau perthynol. Bydd hyn yn ei dro yn ein galluogi i wneud y mwyaf o fuddion economaidd a chymdeithasol mewn modd cyfiawn, wrth hefyd amddiffyn ecosystemau hanfodol a'r amgylchedd.

Rhaid i ni sicrhau anghenion hirdymor amgylchedd cynaliadwy a gwydn, a sicrhau bod digon o adnoddau ddŵr dibynadwy a gwasanaethau ddŵr gwastraff ar gael yng Nghymru. Bydd yr ymdriniaeth hon hefyd yn ysgogi twf gwyrdd trwy ddarparu adnodd angenrheidiol ar gyfer busnesau, yn ogystal â chynnig cyfleoedd newydd ar gyfer cyflogaeth.

Mae'r Strategaeth wedi cael ei gosod yng nghyd-destun ein cyfarwyddyd polisi hirdymor er mwyn gwella ein rheolaeth o adnoddau naturiol a chynnwys ystod eang o faterion yn ymwneud â rheolaeth ein systemau ddŵr, gan gynnwys yr holl ddŵr mewndirol, aberoedd a ddŵr arfordirol. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar sut y gallwn gynyddu gwytnwch ein system ddŵr gyfan er mwyn cael y buddion mwyaf ohoni a lleihau costau i ddefnyddwyr a busnesau gan gynnwys cwmnïau ddŵr.

Gellir dod o hyd i'r strategaeth ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/publications/water-strategy/?skip=1&lang=cy>

Dweud eich barn ar y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol Interim

Mae ymgynghoriad ynghylch cynigion ar gyfer Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol Interim ar agor ar hyn o bryd. Rydym yn eich croesawu a'ch annog i roi eich barn a'ch sylwadau. Mae'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 3 Awst a bydd angen i chi gyflwyno eich ymatebion heb fod yn hwyrach na'r dyddiad hwn. Dyma gyfle ardderchog i chi ddweud eich barn ar gynigion ar gyfer y gorchymyn a fydd, yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, yn llywodraethu cyflogaeth amaethyddol yng Nghymru tan i'r Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth ymgynnull. Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb ar gael yma: <http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/consultation-on-the-proposals-for-the-interim-agricultural-wage/?skip=1&lang=cy>

Glastir

Cynllun Adfer Coetir Newydd Glastir

Daeth y cyfnod Mynegi Diddordeb cyntaf i'r ffermwyr a'r coedwigwyr hynny y mae'r phytophthora ramorum wedi effeithio arnynt i ben ar 5 Mehefin. Dylai'r rheini nad ydynt wedi cael llythyr yn cadarnhau canlyniad eu Mynegiant o Ddiddordeb gysylltu â'r ganolfan cyswllt cwsmeriaid trwy eu cyfrif ar-lein neu drwy ffonio 0300 062 5004.

Cynllun Creu Coetir Newydd Glastir

Mae'r cyfnod Mynegi Diddordeb Ar-lein yn cau ganol nos ar 17 Gorffennaf. Dylai'r cwsmeriaid gael gwybod am y canlyniad erbyn 7 Awst. Os nad yw cwsmeriaid wedi cael ymateb erbyn 7 Awst, dylent gysylltu â'r ganolfan cyswllt cwsmeriaid trwy eu cyfrif ar-lein neu drwy ffonio 0300 062 5004.

Y cyfnod ymgeisio nesaf ar gyfer Glastir Organig

Bydd cyfnod ymgeisio Glastir Organig 2016 yn agor ar 20 Gorffennaf ac yn cau ganol nos ar 2 Medi 2015. Trwy RPW Ar-lein yn unig y mae modd ymgeisio. Bydd Cymorth Digidol ar gael i'r rheini sy'n cael trafferthion wrth lenwi ffurflen gais ar-lein.

Deiliaid Contract Glastir Sylfaenol 2014

Nodyn atgoffa i holl ddeiliaid Contract Glastir Sylfaenol 2014 nad ydynt wedi cwblhau eu gwaith cyfalaf bod ganddynt tan **31 Rhagfyr 2015 i wneud hynny**. Bydd cosbau a chosbau taliadau i'r rheini sy'n methu gwneud hynny.

Deiliaid Contract Glastir Uwch a Choetir Glastir Presennol

Mae'n rhaid cwblhau gwaith cyfalaf o dan gontractau Glastir Uwch a Rheoli Coetir Glastir **yn ystod y flwyddyn sy'n cael ei nodi** yn y Contract oni bai bod caniatâd wedi'i roi i lacio'r rheolau o ran y dyddiadau. Bydd cosbau a chosbau taliadau i'r rheini sy'n methu â gwneud hynny, ac mae'n bosibl y caiff y contract ei derfynu.

Anogir ffermwyr a choedwigwyr sydd â Chontract Glastir Uwch a Chontract Rheoli Coetir Glastir i hawlio am waith cyfalaf sydd wedi'i gwblhau yn gynharach eleni, yn ddelfrydol heb fod yn hwyrach na 13 Tachwedd er mwyn i Lywodraeth Cymru wario'r arian sydd wedi'i ddyrannu cyn diwedd y flwyddyn ac yn rhan o'r Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-2013 sy'n dod i ben.

Cynllun Grantiau Effeithlonrwydd Glastir

Mae'n rhaid cyflwyno'r ceisiadau terfynol am grant fel rhan o gynllun Grantiau Effeithlonrwydd Glastir erbyn 31 Hydref 2015 gan na fydd unrhyw arian pellach ar gael ar ôl hyn. Ni fydd modd derbyn unrhyw geisiadau ar ôl y dyddiad hwn a byddant yn cael eu gwrthod.

I fod yn gymwys i gael taliad, mae'n rhaid i'r holl waith fod wedi'i wneud, wedi'i osod ac wedi'i dalu amdano yn llawn cyn bod modd cyflwyno cais, ac mae'n rhaid cyflwyno'r holl ddogfennau ategol gofynnol gyda'r cais.

Ymholiadau Glastir

Os oes gan gwsmeriaid unrhyw ymholiad am Glastir, dylent gysylltu â'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid trwy'u Cyfrif RPW Ar-lein neu drwy ffonio 0300 062 5004.

Rheolaeth Fiolegol Jac y Neidiwr

Gallai dyddiau Jac y Neidiwr yng Nghymru fod ar ben. Rhwng 26 a 29 Mai, fel rhan o brosiect a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, rhyddhaodd gwyddonwyr o'r Centre for Agriculture and Biosciences International (CABI) gyfrwng rheolaeth fiolegol i atal y planhigyn ymledol anfroddorol hwn rhag lledu.

Y cyfrwng rheolaeth fiolegol a ddefnyddiwyd yw ffwng y gawod pathogenaidd sy'n benodol iawn i rywogaeth Jac y Neidiwr. Dechreuodd y gwyddonwyr o CABI chwilio am gyfrwng addas yn 2006. Aethant i fynyddoedd yr Himalaya yn yr India, sef mynyddoedd brodorol Jac y Neidiwr, i ddod o hyd i un o blith llawer o bryfed neu ffyngau a oedd yn ymosod ar y planhigyn. Yna roedd yn rhaid i CABI ddarganfod pa un o'r rhain y gellid ei ryddhau i'r DU er mwyn rheoli'r chwyn ond gan sicrhau ar yr un pryd nad oedd rhywogaethau brodorol yn cael eu niweidio. Yn dilyn y gwaith hwn, llwyddodd CABI i ynysu ffwng y gawod pathogenaidd a oedd yn gwneud yr union waith hyn. Yn ystod yr ymchwil, dangosodd profion a oedd yn cael eu cynnal mewn labordai cwarantyn bod y ffwng y gawod yn peri niwed sylweddol i Jac y Neidiwr ond nid oedd yn effeithio dim ar unrhyw rywogaeth froddorol y DU.

Mae planhigion Jac y Neidiwr sydd wedi'u heintio â'r ffwng y gawod wedi cael eu plannu mewn pedwar safle yng Nghymru. Yna bydd cynnydd y clefyd yn cael ei fonitro dros y tair blynedd nesaf. Dechreuwyd prosiect tebyg yn Lloegr yn ystod yr haf y llynedd. Mae canlyniadau cynnar yr arbrawf yn dangos bod y ffwng y gawod yn gwasgaru'n llwyddiannus i feysydd Jac y Neidiwr yn yr ardaloedd prawf a thu hwnt. Y ffactor allweddol gydag unrhyw gyfrwng rheolaeth fiolegol yw amser. Os bydd yr

arbrawf yn llwyddiannus rhagwelir y bydd gostyngiad o thua 80% ym mhoblogaeth Jac y Neidiwr yng Nghymru dros y pump i saith mlynedd nesaf.

Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni Drafft

Mae gweithredu ar effeithlonrwydd ynni yn cyflawni'r canlynol:

- cyfrannu'n gryf tuag at ein nodau lles,
- yn brif ffactor o ran twf gwyrdd, swyddi a chadwyni cyflenwi,
- y dull mwyaf cost effeithiol o fodloni ein hymrwymiaidau i leihau allyriadau carbon,
- yn gostwng y costau ar gyfer busnesau a'r sector cyhoeddus,
- gall fynd i'r afael yn uniongyrchol â thlodi tanwydd a lleihau biliau tanwydd.

Hyd yn hyn mae rhaglen effeithlonrwydd ynni Llywodraeth Cymru wedi cael effaith sylweddol, a thrwy nodi'r cyfeiriad tymor hir yn rhan o Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni cyntaf Cymru, mae gennym gyfle i ymgysylltu'n ehangach er mwyn manteisio ar y cyfleoedd a mynd i'r afael â'r rhwystrau i gymryd rhan.

Cynhaliwyd galwad am dystiolaeth ar effeithlonrwydd ynni rhwng 16 Hydref 2014 a 8 Ionawr 2015 i gael barn rhanddeiliaid ar weledigaeth bosibl ar gyfer defnyddio ynni'n fwy effeithlon yng Nghymru ac opsiynau ar gyfer y ffordd ymlaen. Bellach mae dogfen sy'n cynnwys casgliad o'r ymatebion ac sy'n rhannu canlyniadau'r alwad am dystiolaeth wedi'i chyhoeddi. Cafodd yr holl ymatebion eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu'r strategaeth ymhellach, ac rydym o'r farn y bydd y strategaeth ddrafft hon yn adlewyrchu'r dystiolaeth bresennol a barn rhanddeiliaid. Hoffem yn awr roi cyfle i chi lunio'r strategaeth derfynol.

Dechrau'r ymgynghoriad: 17 Gorffennaf 2015

Diwedd yr ymgynghoriad: 9 Medi 2015

<http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/?skip=1&lang=cy>

Cymru Effeithlon



Mae'r gwasanaeth Cymru Effeithlon bellach ar waith ers 7 mis, ar ôl cael ei lansio'n swyddogol gan Carl Sargeant, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, ddiwedd mis Hydref 2014. Mae'r gwasanaeth yn darparu un pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth dibynadwy i unigolion, grwpiau cymunedol, busnesau a sefydliadau'r sector cyhoeddus i'w helpu i arbed ar ynni, dŵr a gwastraff, ac i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Dechreuodd gwaith marchnata ffurfiol ar gyfer y gwasanaeth ym mis Ebrill 2015, gan ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ymysg deiliaid tŷ ac roedd yn cynnwys amrywiaeth o fecanweithiau megis hysbysebion ac erthyglau i'r wasg, hysbysebu ar-lein a hysbysebu ar fsys ar hyd a lled Cymru. Mae'r gweithgarwch marchnata wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth yn gyffredinol, ond yn benodol ar ddatrysiadau cyflym i wneud cartrefi'n fwy effeithlon o ran ynni, ac i fynd i'r afael â galw diwahoddiad.

Mae Cymru Effeithlon yma i helpu pobl a sefydliadau yng Nghymru ganfod y cymorth cywir, trwy ddarparu gwybodaeth ar y cymorth sydd ar gael, a thrwy gyfeirio galwyr at yr ystod eang o wasanaethau cyngor a chymorth sydd ar gael iddynt gan gynnwys y cyngor a'r cymorth mwy arbenigol sydd ar gael trwy Wasanaeth Rheolwr Cleientiaid Cymru Effeithlon.

I gael rhagor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael trwy'r gwasanaeth, ffoniwch 0300 123 2020 rhwng 9:00am a 5:00pm, ewch i'r wefan <http://resourceefficient.gov.wales/?skip=1&lang=cy> neu anfonwch e-bost ResourceEfficientWales@Wales.GSI.Gov.UK

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Cyhoeddwyd canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2014-15 ar ddydd lau 11 Mehefin. Mae'r canlyniadau yn seiliedig ar dros 14,000 o gyfweiliadau wyneb-yn-

wyneb a gynhaliwyd ledled Cymru rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015. Mae canlyniadau ar gael ar lefel genedlaethol, awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth gadarn, fanwl ar farnau a phrofiadau pobl yng Nghymru ar amrywiaeth eang o bynciau. Bydd y cyhoeddiad yn cynnwys y prif ganlyniadau o bob un o'r pynciau y mae'r arolwg yn ymdrin â hwy, gan gynnwys:

- Ymweliadau â digwyddiadau'r celfyddydau, amgueddfeydd a mannau hanesyddol, a boddhad gyda hwy.
- Cenedlaethau'r dyfodol— disgwyliadau o Gymru yn y dyfodol
- Lles, gan gynnwys ansawdd yr ardal leol
- Teithio egnïol – cerdded neu feicio o le i le
- Ailgylchu
- Mesurau arbed ynni

Mae'r canlyniadau yn ffynhonnell werthfawr o dystiolaeth i helpu wrth greu polisiau ac wrth fonitro newidiadau dros amser. Cyhoeddir y datganiad ar [Llywodraeth Cymru | Arolwg Cenedlaethol Cymru](https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/National-Survey-for-Wales) a bydd tablau o ganlyniadau mwy manwl ar gael ar <https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/National-Survey-for-Wales>. Dros y flwyddyn nesaf, bydd tîm yr Arolwg Cenedlaethol yn ymgymryd â dadansoddiad pellach o ganlyniadau 2014-15.

Dyma yw casgliad terfynol canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol ar ei ffurf bresennol. O fis Mawrth 2016, bydd cyfnod newydd o'r Arolwg Cenedlaethol yn dechrau a fydd yn disodli'r Arolwg Cenedlaethol presennol yn ogystal ag Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru, Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru, Arolwg Iechyd Cymru, a'r Arolwg ar Oedolion Egnïol. Bydd y dull gweithredu newydd yn parhau i ddarparu gwybodaeth hanfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau, a fydd yn cael ei chasglu i'r safonau uchaf.

Os hoffech ofyn am ddadansoddiad pellach o ganlyniadau 2014-15, cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd, neu awgrymu pynciau ar gyfer yr arolwg yn y dyfodol, anfonwch e-bost at dîm yr Arolwg Cenedlaethol: surveys@wales.gsi.gov.uk

Mynnwch yr wybodaeth ddiweddaraf

I ddysgu mwy am y rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol, ewch i: www.llyw.cymru/rheoliadnoddanaturiol

Mae'r tudalennau gwe yn cynnwys [Cwestiynau Cyffredin](#), [pecyn gwybodaeth](#) a rhai [astudiaethau achos](#).

Gallwch hefyd ddysgu am y datblygiadau diweddaraf ar Facebook a Twitter trwy ddilyn @WG_NatResMin a hoffi tudalen Facebook Llywodraeth Cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech ymuno â'r rhestr bostio, e-bostiwch ni ar naturalresourcemanagement@wales.gsi.gov.uk